**Panel Adolygu Arbenigol: Cynllun gwaith**

Dyma gynllun gwaith y Panel Adolygu Arbenigol y cytunwyd arno ar hyn o bryd wedi'i gynnull gan Crisis dan gadeiryddiaeth yr Athro Suzanne Fitzpatrick, i ystyried materion deddfwriaethol ac argymell atebion manwl i ddiwygio'r gyfraith.

| Amserlen | Thema | Meysydd briffio/ eitemau agenda craidd y panel | Gwaith ymgynghori (*ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid sy'n baralel ag arbenigwyr drwy brofiad / ar y cyd â gwaith cyfreithiol gan Liz Davies KC, Siambrau Garden Court)*<br><br>**I gyd-fynd â phapur ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach.** | Pwrpas y cyfarfod/ Canlyniadau posibl | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Awst | Pwrpas/trosolwg o'r panel a'r cynllun gwaith | • Cytuno ar gylch gorchwyl<br>• Cytuno ar gynllun gwaith a themâu<br>• Pennu nodau a chwmpas gwaith y panel | H/B<br><br>Anfon papurau i'r panel cyn y cyfarfod cyntaf | Erbyn diwedd y cyfarfod hwn dylai'r panel feddu ar afael cadarn ar ei bwrpas a chytundeb eang o'r cynllun gwaith ar gyfer y 12 mis nesaf | |
| Medi | Dyletswyddau atal a lleddfu ar gyfer awdurdodau lleol | • Beth yw'r dyletswyddau presennol?<br>• Sut maent yn gweithio'n ymarferol?<br>• Sut mae modd eu cryfhau / ehangu? | Bydd papurau briffio yn darparu gwybodaeth ar gyfer y drafodaeth gychwynnol. Yn unol â'r cynllun ymgysylltu â Rhanddeiliaid | Erbyn diwedd y cyfarfod hwn dylai fod consensws cyfeiriad ar gyfer argymhellion deddfwriaethol drafft mewn | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • Beth sydd ar goll?<br>• Modelau sydd eisoes yn bodoli<br>• Prif bryderon/ Datrysiadau | ehangach, dylai ymgysylltu gynnwys:<br>• Swyddogion tai ALl<br>• Cymeithas Landlordiaid Preswyl Cymru<br>• Cymdeithasau tai<br>• Darparwyr digartrefedd<br>• Hyb ACE<br>Bydd sesiwn ymgysylltu ym mis Tachwedd â'r grwpiau hyn yn darparu gwybodaeth ar gyfer adolygiad Ionawr ar y meysydd hyn. | perthynas â'r dyletswyddau atal a lleddfu presennol | |
| Hydref | Angen blaenoriaethol, bwriadoldeb a chysylltiad lleol, Troi allan | • Newidiadau yn sgil darpariaeth COVID<br>• Y sefyllfa sydd ohoni yng Nghymru<br>• Dyletswyddau dros dro cyfreithiol<br>• Cysgu allan fel angen blaenoriaethol<br>• Pob prawf cyfreithiol<br>• Adolygiadau/ Materion rheoleiddio<br>• Modelau/ enghreifftiau sydd eisoes yn bodoli<br>• Prif bryderon/ datrysiadau | Bydd papurau briffio yn darparu gwybodaeth ar gyfer y drafodaeth gychwynnol. Yn unol â'r cynllun ymgysylltu â Rhanddeiliaid ehangach, dylai ymgysylltu gynnwys:<br>• Sefydliadau sy'n cynrychioli categorïau angen blaenoriaethol<br>• Swyddogion tai ALl | Erbyn diwedd y cyfarfod dylai fod consensws ar ba gyfeiriad dylai argymhellion ei gymryd o ran angen blaenoriaethol/ bwriadoldeb/ CLl – neu lwybr clir y mae angen tystiolaeth bellach arno ar feysydd i gyrraedd consensws ar | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Cydlynwyr Datblygiad Rhanbarthol<br>Bydd sesiwn ymgysylltu ym mis Tachwedd â’r grwpiau hyn yn darparu gwybodaeth ar gyfer adolygiad Ionawr ar y meysydd hyn. | ddylanwadu ar ddeddfwriaeth | |
| Tachwedd | Mynediad at dai | • Cyfraith dyraniadau<br>  ○ Awdurdodau lleol<br>  ○ Cymdeithasau tai<br>• Cymhwysedd<br>• Llety dros dro<br>• Pyrth/ atgyfeiriadau tai<br>• Addasrwydd<br>• Modelau/ enghreifftiau sydd eisoes yn bodoli<br>• Prif bryderon/ datrysiadau | Dylai ymgysylltu â rhanddeiliaid gynnwys:<br>• Swyddogion tai<br>• Cymdeithasau tai<br>• Darparwyr digartrefedd | Erbyn diwedd y cyfarfod hwn, dylai fod y panel wedi nodi'r rhwystrau cyfreithiol presennol yng Nghymru rhag cael mynediad at dai digonol, a dechrau drafftio argymhellion ar gyfer diwygio deddfwriaethol ar gyfer chwalu’r rhwystrau hyn | |
| Ionawr | Adolygu’r cynllun gwaith | • Ystyried tystiolaeth hyd yma a chyfeiriad y gwaith<br>• Adolygu canlyniadau’r digwyddiadau ymgynghori Arbenigwyr drwy Brofiad | | Erbyn diwedd y cyfarfod hwn, bydd aelodau'r panel wedi penderfynu a ddylid addasu’r cynllun gwaith ar gyfer y misoedd sy'n weddill ai peidio, a rhoi | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | adborth i'r grŵp arbenigwyr drwy brofiad | |
| Chwefror | Plant a theuluoedd (gan gynnwys y rheini sy'n gadael gofal, digartrefedd ymysg pobl ifanc, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) | • Sut mae darparwyr digartrefedd yn cael eu hariannu (HSG)<br>• Dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol<br>• Swyddogaeth lloches<br>• Cyd-destun Cymreig digartrefedd wedi'i achosi gan VAWDASV<br>• Addasrwydd y ddarpariaeth<br>• Modelau/ Enghreifftiau sydd eisoes yn bodoli<br>• Prif bryderon/ Datrysiad | Dylai ymgysylltu â rhanddeiliaid gynnwys:<br>• Cynghorwyr cenedlaethol VAWDASV<br>• Llwybrau Newydd<br>• BAWSO<br>• Llamau/ End Young Homelessness Cymru<br>• Cymorth i Ferched Cymru<br>• NSPCC<br>• CAFCASS Cymru?<br>• Darparwyr digartrefedd<br>• Cydraddoldeb Hiliol Cymru<br>• Anabledd Cymru<br>• Stonewall Cymru<br>• Tai Pawb | Erbyn diwedd y cyfarfod hwn, dylai fod y panel wedi nodi sut mae systemau tai a digartrefedd presennol yn gweithio i ddarparu llety ar gyfer Plant, pobl ifanc, teuluoedd a goroeswyr VAWDASV – ble mae bylchau parhaus yn y ddarpariaeth a pha feysydd o'r adolygiad deddfwriaethol allai weithio i fynd i'r afael â'r rhain | |
| Mawrth | Rôl iechyd a gofal cymdeithasol wrth atal digartrefedd a rhoi diwedd arno | • Dysgu o'r modelau Tai yn Gyntaf/ Ailgartrefu Cyflym<br>• Defnyddio Sylweddau<br>• Iechyd meddwl | Dylai ymgysylltu â rhanddeiliaid gynnwys:<br>• Rhwydwaith camddefnyddio | Erbyn diwedd y cyfarfod hwn, dylai'r panel feddu ar syniad clir o safon aur rôl | Cymru sy'n Ystyriol o Drawma: Dull Cymdeithasol o ddeall, atal a |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • Ffyrdd o weithio/ fframwaith y mae trawma'n darparu gwybodaeth iddynt<br>• Modelau/ enghreifftiau sydd eisoes yn bodoli | sylweddau (cadeirydd)<br>• Ainsley Bladon - Arweinydd Clinigol Iechyd Meddwl Cenedlaethol i Oedolion<br>• Cynrychiolydd Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Cadeirydd Rhwydwaith Tai yn Gyntaf<br>• Prosiect IRIS | iechyd a gofal cymdeithasol o ran atal ac ymyrraeth gynnar, a sut y gallai newid deddfwriaethol alluogi mwy o ymgysylltu yn y rôl hon | chefnogi effeithiau Trawma ac Adfyd |
| Ebrill | Systemau cyfiawnder troseddol ac atal | • Datganoli<br>• 'Llwybrau o'r Carchar'<br>• Cysylltiad lleol<br>• Troi allan yn anghyfreithlon<br>• Modelau/ enghreifftiau sydd eisoes yn bodoli | Dylai ymgysylltu â rhanddeiliaid gynnwys:<br>• Comisiwn cyfiawnder<br>• Comisiynwyr Heddlu a Throseddu<br>• CAFCASS Cymru<br>• Uned Atal Merched (Cymru) | Erbyn diwedd y cyfarfod hwn, dylai aelodau'r panel feddu ar ddealltwriaeth dda o'r rhwystrau tai sy'n wynebu pobl sy'n gadael y system cyfiawnder troseddol, rôl cyfiawnder troseddol o ran atal a pha bwerau deddfu sydd gan Gymru i ddylanwadu'n gadarnhaol ar y system hon | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mai / Mehefin | Gwiriad cyd-destunol ac adolygu cynigion<br><br>Trefnu’r panel | • Gorfodi<br>• Rheoleiddio | | | |

- Bydd Crisis yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth i'r grŵp â pheth cefnogaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru i reoli logisteg cyfarfodydd.
- Bydd y panel craidd yn cyfarfod wyth gwaith o 31 Awst 2022, ac yn adrodd ar ôl 12 mis. Cyn cyfarfodydd bydd Crisis yn cyhoeddi papurau i'w hystyried ac, os yw’n berthnasol, yn drafftio cynigion diwygio i'w trafod. Bydd cyfarfodydd ar-lein yn bennaf ond bydd y panel yn cyfarfod wyneb-yn-wyneb yn achlysurol pan fo angen ac os bydd gofynion Covid-19 a chanllawiau'r llywodraeth yn caniatáu hynny.
- Bydd Crisis hefyd yn cynnull cyfarfodydd ymgynghori cyn cyfarfodydd panel craidd, i archwilio themâu yn fanylach a chyfrannu at drafodaethau panel craidd. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cymryd safbwyntiau gan grŵp ehangach o randdeiliaid y tu hwnt i aelodaeth y panel craidd.
- Bydd y panel yn ystyried ac yn ymgorffori canlyniadau gwaith ymgynghori â phobl sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd a phobl sy'n gweithio'n broffesiynol i ddod â digartrefedd i ben. Bydd Cymorth Cymru yn arwain y gwaith hwn ar ran y panel.
- Drwy gydol y broses rhoddir ystyriaeth i aelodau'r panel yn cyflawni rôl 'arweinwyr thematig' mewn rhai meysydd i ddarparu arbenigedd ychwanegol a chynorthwyo Crisis wrth ddrafftio gwahoddiadau rhanddeiliaid.
- Bydd y panel craidd yn darparu mewnbwn i'r agenda cyn pob cyfarfod ymgynghori a bydd yn derbyn adroddiad gan Crisis yn dilyn pob cyfarfod ymgynghori a phapurau polisi ymlaen llaw a dogfennau briffio cyn pob cyfarfod panel craidd.
- Bydd y gwaith hwn yn digwydd ar y cyd â gwaith cyfreithiol y mae Liz Davies KC, Siambrau Garden Court yn ei ddarparu.
- Bydd profiadau pobl sydd angen cymorth arbenigol, grwpiau ar y cyrion, a phobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried ym mhob rhan o waith y Panel Adolygu Arbenigol.
- Bydd Crisis yn llunio adroddiad sy'n adlewyrchu casgliadau'r adolygiad.
- Cynhelir cyfarfodydd o dan Reol Chatham House.